**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Y Gwir Anrh Michelle Donelan AS
Ysgrifennydd Gwladol dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg
Llywodraeth y DU

19 Chwefror 2024

## Cofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol

Annwyl Michelle,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor o Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn ymwneud â'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) ("y Bil"). Yn ystod cyfnod adrodd trafodion deddfwriaethol yn Nhŷ'r Cyffredin, fe wnaethoch gyflwyno diwygiadau i'r Bil yn ymwneud â sefydlu Cofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol.

Fel y gwyddoch, mae cannoedd o berchnogion asedau tanddaearol ledled y wlad, yn amrywio o lywodraeth leol i gwmnïau cyfleustodau. Bydd gan yr holl berchnogion hyn eu prosesau ar gyfer cynnal data o'r fath. Er nad oes gennym safbwynt penodol ar sefydlu cofrestr o'r fath, mae gennym bryderon bod y Bil diwygiedig yn trosglwyddo pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy bwerau rheoleiddio, i wneud penderfyniadau ar Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol fel y mae'n ymwneud â Chymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi "pryderon polisi cyfansoddiadol" ynghylch pwerau rheoleiddio o dan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 yn cael eu trosglwyddo o Weinidogion Cymru yn ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol (fel y nodir ym mharagraff 22 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3). Nid ydym yn sicr, fodd bynnag, am ei farn na'i ran yn y mater polisi hwn yn fwy cyffredinol.

Hoffem wybod pa drafodaethau rydych chi neu'ch swyddogion wedi'u cael gyda Llywodraeth Cymru ynghylch sefydlu Cofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol. Hoffem gael gwybod yn arbennig, pa ystyriaethau sy'n cael eu rhoi i gymwyseddau datganoledig a sut y cânt eu rheoli. Byddem hefyd yn

croesawu amlinelliad gennych am beth yw rhan Llywodraeth Cymru yn y gwaith o ddatblygu'r polisi ar gyfer cofrestr o'r fath.

Fel y mae, mae'r diffyg manylion a thryloywder ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ynghylch y diwygiadau i'r Bil (a nodwyd fel rhai sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd) wedi rhwystro ein gallu i asesu goblygiadau polisi'r newidiadau hyn. Byddem, felly, yn croesawu eglurder am eich trafodaethau â Llywodraeth Cymru i gynorthwyo ein hystyriaethau.

Wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy Dŷ'r Arglwyddi, byddem yn ddiolchgar o gael ymateb brys i'r mater hwn. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion Pwyllgor Newid Hinsawdd ac Amgylchedd y Senedd a Phwyllgor Deddfwriaethol, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd er gwybodaeth.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.